**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Tachwedd 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y “GDCG”), fel y’i diwygiwyd, yn caniatáu i fân waith datblygu gael ei wneud, o fewn paramedrau penodol, heb fod angen cyflwyno cais cynllunio. Gelwir hyn yn “ddatblygiad a ganiateir”.

1.2 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (“y Gorchymyn Diwygio") yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy fewnosod Rhan 6A newydd (mannau tyfu i gymunedau) i ganiatáu gwaith i godi, estyn, disodli neu newid siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau sydd o leiaf 62 metr sgwâr o faint. Mae’r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd hefyd wedi eu nodi yn y Rhan 6A newydd.

1.3 Mae'r Gorchymyn Diwygio hefyd yn diwygio erthygl 4, a Rhan 24 (datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig) o Atodlen 2 i'r GDCG i weithredu Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE 2018/1972 Senedd Ewrop a'r Cyngor gan sefydlu Cod Cyfathrebu Electronig Ewropeaidd (ail-luniad) fel y maent yn ymwneud â'r system gynllunio drwy:

- 1.3.1 lleihau'r cyfyngiadau ar waith datblygu sy'n cynnwys gosod, newid neu ddisodli pob system cell fach;
- 1.3.2 dileu'r cyfyngiadau ar waith datblygu sy'n cynnwys gosod, newid neu ddisodli systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 y tu allan i dir gwarchodedig neu Safleoedd Treftadaeth y Byd. Systemau cell fach y mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (yr UE) 2020/1070 yn gymwys iddynt ac sy'n bodloni'r amodau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliad hwnnw yw systemau cell fach Rheoliad 2020/1070;
- 1.3.3 gwneud newidiadau i erthygl 4 o'r GDCG fel na all awdurdod cynllunio lleol na Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar gwmpas hawliau datblygu a ganiateir i'r graddau y mae'r gwaith datblygu yn cynnwys gosod, newid neu ddisodli system cell fach Rheoliad 2020/1070.

1.4 Mae'r Gorchymyn Diwygio yn gwneud diwygiadau eraill i Ran 24 o Atodlen 2 i'r GDCG, gan gynnwys :

- 1.4.1 cynyddu nifer y systemau antenau y gellir eu gosod ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar;
- 1.4.2 cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a all weithredu systemau antenau ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar;
- 1.4.3 eithrio systemau cell fach a systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 o'r cyfrifiad o nifer y systemau antenau y gellir eu gosod a nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a all weithredu, ar adeiladau ac adeileddau penodol;
- 1.4.4 gwneud mân newidiadau drafftio.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r pwerau i wneud y Gorchymyn Diwygio yn adrannau 59, 60, 61 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r adrannau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi (neu'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i roi) caniatâd cynllunio ar gyfer categorïau o ddatblygu a nodir mewn gorchymyn datblygu. Gwneir y GDCG o dan y pwerau hyn.

3.2 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i, Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hyn bellach.

3.3 Mae Adran 333(5B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu mai'r weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

3.4 Gwneir Erthygl 4(7) o'r Gorchymyn Diwygio drwy arfer pwerau ym mharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (“Deddf 1972”). Mae Paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 yn darparu, lle mae is-ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth at ddiben a nodir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, fod y ddeddfwriaeth yn cynnwys cyfeiriad at un o offerynnau'r UE, a'i bod yn ymddangos i'r person sy'n gwneud y ddeddfwriaeth bod angen i'r cyfeiriad gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, y gall yr is-ddeddfwriaeth wneud darpariaeth benodol i'r perwyl hwnnw.

3.5 Cafodd Deddf 1972 ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (“Deddf 2018”) yn weithredol o'r diwrnod ymadael. Caiff “diwrnod ymadael” ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er y diddymiad hwnnw bydd Deddf 1972 yn parhau i fod yn weithredol gydag addasiadau hyd at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018 a gafodd ei mewnosod gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 (“Deddf 2020”). Caiff “diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu” ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020).

3.6 Mae'r Gorchymyn Diwygio yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a nodir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 h.y. gweithredu un o Rwymedigaethau'r Undeb Ewropeaidd.

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

Mannau Tyfu i Gymunedau

4.1 Mae adeileddau fel siediau a thai gwydr fel arfer wedi'u lleoli ar randiroedd ac mewn mannau tyfu eraill i gymunedau. Mae angen siediau i storio offer a ddefnyddir wrth weithio ar y tir ac i gysgodi rhag y tywydd, ac mae tai gwydr yn bwysig i sicrhau'r amodau gorau posibl sy'n angenrheidiol ar gyfer twf cynhyrchiol.

4.2 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygu ar dir a ddefnyddir fel mannau tyfu i gymunedau. Felly, mae angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu. Pan gaiff ceisiadau o'r fath eu cyflwyno i awdurdodau cynllunio lleol, yn aml maent yn fach o ran maint ac nid ydynt yn ddadleuol.

4.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi rhwymedigaeth glir i gyrff cyhoeddus alluogi newid cadarnhaol sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, diogel ac iach. Mae'r ffrwythau a llysiau ffres, sy'n aml yn organig, a gaiff eu tyfu ar safleoedd tyfu i gymunedau yn cyfrannu at ddarparu cyflenwad bwyd mwy cynaliadwy a diogel a fydd, yn ei dro, yn gweithio tuag at greu Cymru sy'n iachach, yn hapusach ac yn fwy cynaliadwy.

4.4 Diben y darpariaethau yn y Gorchymyn Diwygio hwn yw rhoi hawliau datblygu a ganiateir i godi, estyn, disodli neu newid siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau, er mwyn cefnogi prosesau tyfu newydd i gymunedau yng Nghymru.

4.5 Bydd rhoi'r rhyddid i dyfwyr cymunedol wneud gwaith datblygu heb fod angen cael caniatâd cynllunio yn annog mwy o ddefnydd o'r tir, gan gyfrannu at gynhyrchu bwyd cynaliadwy a chynnyrch arall.

4.6 Bydd yr hawliau hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol, fel uchafswm maint a lleoliad, sydd wedi'u cynllunio i leihau effeithiau amwynder ar yr amgylchedd ehangach, i warchod cyrsiau dŵr/amddiffynfeydd rhag llifogydd ac i sicrhau rheolaeth dros waith datblygu mewn ardaloedd gwarchodedig.

Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

4.7 Mae cyflwyno rhwydwaith telathrebu symudol dibynadwy a chyflym i bob rhan o Gymru yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau cysylltedd digidol yng Nghymru, yn cynnwys ardaloedd na chânt eu gwasanaethu gan y farchnad ar hyn o bryd. Hefyd, ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol. Nododd y Cynllun nifer o gamau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni amcanion cenedlaethol ar gyfer cysylltedd digidol, yn cynnwys adolygu hawliau datblygu a ganiateir, ac adolygu polisïau telathrebu ym Mholisi Cynllunio Cymru.

4.8 Mae gan y System Gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi a gwella cysylltedd digidol, drwy bolisïau cenedlaethol a lleol a thrwy hawliau datblygu a ganiateir.

4.9 Nodir hawliau datblygu a ganiateir i weithredwyr cod cyfathrebu electronig yng Nghymru yn Rhan 24 o Atodlen 2 i'r GDCG. Yn sgil adolygiad Llywodraeth Cymru o hawliau datblygu a ganiateir, cafwyd cyfle i ystyried a oedd y darpariaethau cyfredol yn addas at y diben ac yn gallu cyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth genedlaethol.

4.10 Mae'r Gorchymyn Diwygio yn diwygio Rhan 24 o'r GDCG i hepgor y diffiniad o "antenau bach" ac "antenau cell fach" a mewnosod diffiniad newydd o "system cell fach". Mae'r diffiniad o "system cell fach" yn seiliedig ar yr hen ddiffiniad o "antenau cell fach" gyda diwygiad i gynnwys cyfarpar atodol er mwyn egluro graddau'r hawliau datblygu a ganiateir. Mae'r diffiniad o "system cell fach" yn cynnwys yr hyn a ddiffiniwyd yn flaenorol fel "antenau bach". Nid ystyrir bod angen y ddau ddiffiniad hyn mwyach ac y gallent arwain at ddryswch.

4.11 Mewn perthynas â'r newidiadau hyn, mae'r Gorchymyn Diwygio yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach. Mae hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau a gyflwynwyd er mwyn helpu i warchod adeiladau ac ardaloedd o werth naturiol a hanesyddol. Yn benodol, mae nifer y systemau yn gyfyngedig mewn ardaloedd cadwraeth, yn Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ar anheddau er mwyn sicrhau nad yw gormod o gyfarpar o'r fath yn effeithio'n andwyol ar ymddangosiad adeilad. O ran gwaith datblygu ar Dir Gwarchodedig (sy'n cynnwys tir o fewn parc cenedlaethol, ardal o harddwch naturiol eithriadol ac ardal gadwraeth neu dir o fewn SoDdGA) cyflwynir proses Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw er mwyn sicrhau y gall awdurdod cynllunio lleol benderfynu o hyd a yw lleoliad a dyluniad gosodiad yn briodol.

4.12 Yn ogystal â'r newidiadau uchod, mae'r Gorchymyn Diwygio hefyd yn cynyddu nifer y systemau antenau (heblaw am "antenau dysgl", "systemau cell fach Rheoliad 2020/1070" neu "systemau cell fach") y gellir eu gosod ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar. Mae hefyd yn cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a all weithredu systemau antenau (heblaw am "antenau dysgl", "systemau cell fach Rheoliad 2020/1070" neu "systemau cell fach") ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar.

4.13 Diben y darpariaethau hyn yw cynyddu hyblygrwydd y drefn ar gyfer hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gweithredwyr cod cyfathrebu electronig er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno cysylltedd symudol pellach ledled Cymru. Mae'r newidiadau ym mharagraff 4.11 hefyd yn gweithredu paragraff 1 o erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE 2018/1972 am eu bod yn lleihau'r cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â gosod, newid neu ddisodli systemau cell fach. Ystyrir bod y diffiniad o

system cell fach yn cwmpasu'r diffiniad o Bwynt Mynediad Di-wifr Ardal Fach (SAWAP) at ddibenion gweithredu Cyfarwyddeb yr UE.

4.14 Mae'r newidiadau a wnaed gan y Gorchymyn Diwygio hefyd yn gweithredu paragraff 2 o Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE 2018/1972 drwy roi mwy o hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â gwaith datblygu sy'n cynnwys gosod, newid neu ddisodli systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 heblaw am waith datblygu penodol ar Dir Gwarchodedig neu mewn Safle Treftadaeth y Byd. Mae Erthygl 4 o'r GDCG hefyd yn cael ei diwygio er mwyn sicrhau na all Cyfarwyddebau Erthygl 4 gael eu gwneud gan awdurdodau cynllunio sydd am ddiwygio'r darpariaethau datblygu a ganiateir hyn i'w gwneud yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y mathau hyn o systemau cell fach. Ystyrir y byddai dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 yn anghyson â pharagraff (2) o Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE.

## 5. Ymgynghori

Mannau Tyfu i Gymunedau

5.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer deiliaid rhandiroedd ar 22 Tachwedd 2019 ac roedd modd cyflwyno ymatebion tan 28 Chwefror 2020. Roedd yn ceisio barn ar gynigion i ddiwygio'r GDCG drwy gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer codi adeileddau ar randiroedd.

5.2 Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli nifer o grwpiau gwahanol â diddordeb, ac roedd ychydig o dan hanner y rhain yn aelodau unigol o'r cyhoedd.

5.3 Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno â'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar y cyfan. Mae'r darpariaethau a nodir yn y Gorchymyn Diwygio yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, fel y'u diwygiwyd i ystyried adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r gallu i wneud gwaith datblygu ar leiniau llai o faint ar ffurf sied neu dŷ gwydr a sicrhau bod yr hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i fathau modern o safleoedd tyfu i gymunedau ac na chânt eu cyfyngu i randiroedd traddodiadol a reoleiddir. Rhoddir eglurder hefyd mewn perthynas â statws cynllunio twnelau polythen, y dylid eu hystyried fel tai gwydr at ddiben hawliau datblygu a ganiateir a gyflwynir gan y Gorchymyn Diwygio hwn.

5.4 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - https://llyw.cymru/hawliau-datblygu-ganiateir-ar-gyfer-deiliaid-rhandiroedd.

Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

5.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 31 Mai 2018 a 298 Medi 2018 ar set eang o gynigion ynghylch cydgrynhoi a diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a'r GDCG. Cafwyd cyfanswm o 148 o ymatebion. Ymgynghorwyd ar newidiadau i Ran 24, Darpariaethau Datblygu gan Weithredwyr Cod Cyfathrebu Electronig (Cymru) yn ymwneud ag uchder a lled mastiau a ddeddfwyd drwy Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

5.6 Yn yr un ymgynghoriad, gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar raddau hawliau datblygu a ganiateir ar y defnydd o 'antenau bach' a 'system cell fach'; Ar ôl ystyriaeth bellach, nid ystyriwyd bod angen cadw'r ddau ddiffiniad ar wahân am eu bod yn ailadrodd i raddau. Ystyriwyd bod y term 'system cell fach' yn derm mwy cywir a chwmpasog. Er hyn, nid yw'r cyfarpar a gaiff ei gwmpasu gan y diffiniad hwn, ac felly bwriad y polisi, wedi newid.

5.7 Yng nghyd-destun Cyfarwyddeb yr UE 2018/1972 sy'n nodi na ddylid cyfyngu'n ormodol ar y defnydd o SAWAPs, rydym yn ystyried ei bod yn berthnasol gweithredu ein cynigion ar gyfer systemau cell fach. Ystyrir bod gan systemau cell fach a SAWAPs yr un nodweddion at ddibenion gweithredu Cyfarwyddeb yr UE. Yn yr ymgynghoriad, cafwyd cytundeb ar y cyfan â'n cynigion i lacio'r cyfyngiadau ar systemau cell fach gan roi darpariaethau ar waith i warchod y safleoedd mwyaf sensitif ac adeiladau o werth hanesyddol a naturiol.

5.8 Ni fwriwyd ymlaen â holl gynigion ymgynghoriad 2018 yn eu cyfanrwydd. Nododd yr ymatebion fod Ardaloedd Cadwraeth yn faes ychwanegol penodol y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddo fel is-set 'ardaloedd gwarchodedig' oherwydd yr effaith bosibl y gallai nifer mawr o systemau cell fach ar adeilad ei chael ar gymeriad sensitif yr ardaloedd hyn.

5.9 Yn ei ymateb, nododd Cadw hefyd nad oedd y cynigion yn ein hymgynghoriad yn mynd i'r afael â Safleoedd Treftadaeth y Byd ac y dylid ystyried eu gwarchod ochr yn ochr ag Ardaloedd Cadwraeth. O ystyried pwysigrwydd statws Safleoedd Treftadaeth y Byd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ystyrir y dylid cydnabod hyn fel bod adeiladau neu adeileddau o fewn y cyfryw safleoedd yn cael eu gwarchod i'r un graddau ag Ardaloedd Cadwraeth.

5.10 Mae crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad i gwestiynau perthnasol yr ymgynghoriad mewn perthynas â systemau cell fach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - https://llyw.cymru/cyfuno-ac-adolygu-is-ddeddfwriaeth.

**RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDIOL**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif. 3) (Cymru) 2020**

**1. Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer mannau tyfu i gymunedau**

**Opsiynau**

1.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1: Gwneud dim – Bydd caniatâd cynllunio yn dal i fod yn ofynnol ar gyfer pob gwaith datblygu ar randiroedd ac mewn mannau tyfu eraill i gymunedau.

Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth – Rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer codi, estyn, newid neu ddisodli siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau.

1.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd y bydd yn rhoi mwy o ryddid i dyfwyr cymunedol ac yn cael gwared ar geisiadau cynllunio bach, nad ydynt yn ddadleuol, o'r system, gan ryddhau adnoddau awdurdodau cynllunio lleol.

**Dadansoddiad o Gostau a Manteision**

1.3 Ymysg y sectorau y mae'r cynigion fwyaf tebygol o effeithio arnynt mae:

- Tyfwyr cymunedol - Y rhai sy'n defnyddio, neu a fyddai o bosibl yn defnyddio, mannau tyfu i gymunedau, fel rhandiroedd, ac a fyddai'n cael budd o hawliau datblygu a ganiateir.

- Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) – Mae 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru sy'n penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. Mae 22 o'r rhain yn awdurdodau unedol, a'r awdurdodau parciau cenedlaethol, sy'n darparu eu swyddogaeth cynllunio tref eu hunain, sy'n cyfrif am y tri arall.

- Y cyhoedd – Y rhai a all fod â diddordeb mewn datblygu tir yn eu hardal.

1.4 Cynhaliwyd y dadansoddiad costau a manteision canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

**Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 1: Gwneud dim**

<u>Tyfwyr cymunedol</u>

1.5 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac fel y cyfryw, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.  Byddai angen cael caniatâd

cynllunio o hyd i godi siediau a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau.

1.6 £85.00 yw'r ffi gynllunio ar gyfer cais cynllunio ar hyn o bryd. Bydd costau cysylltiedig ar gyfer paratoi'r wybodaeth ategol angenrheidiol, fel cynlluniau. Amcangyfrifodd astudiaeth feincnodi a gynhaliwyd yn Lloegr[1] bod cyfanswm cost cyflwyno gwaith datblygu deiliad cartref, o faint tebyg, yn amrywio o £150 i £2,900. O ystyried maint y gwaith datblygu, mae'n debygol y byddai'r costau cysylltiedig ar gyfer tyfwyr cymunedol ar ben isaf yr ystod hon. Gall nifer o amrywiadau effeithio ar y costau hyn, yn cynnwys defnyddio asiant a'r arbedion y gellir eu gwneud drwy gyflwyno ceisiadau drwy Ceisiadau Cynllunio Cymru (mae hyn yn cyfyngu ar y costau argraffu). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau a nodir yn yr astudiaeth hon yn cynrychioli a) y costau y mae'n debygol y bydd pobl yn eu talu yng Nghymru a b) y costau y mae'n debygol y bydd tyfwyr cymunedol yn eu talu ar gyfer cais am waith datblygu o'r maint hwn.

1.7 Gall yr angen am ganiatâd cynllunio, a'r costau dan sylw, olygu y bydd pobl yn penderfynu peidio cymryd rhandiroedd a mannau tyfu eraill i gymunedau, yn arbennig os bydd angen sied storio a/neu dŷ gwydr arnynt ar gyfer y defnydd y maent yn bwriadu ei wneud o'r tir.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

1.8 Bydd ACLlau yn parhau i ddilysu, prosesu a phenderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. Bydd angen rhoi cyhoedddusrwydd i bob cais a chynnal ymweliad â safle. Penderfynir ar y cais yn unol â chynllun dirprwyo perthnasol yr ACLl a all olygu bod y pwyllgor cynllunio'n penderfynu ar y cais. Bwriedir i'r ffi gynllunio dalu costau'r ACLl.

<u>Y cyhoedd</u>

1.9 Dim costau uniongyrchol nac anuniongyrchol.

**Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 1 – Gwneud dim**

<u>Tyfwyr Cymunedol</u>

1.10 Ni fydd unrhyw fanteision uniongyrchol nac anuniongyrchol i dyfwyr cymunedol. Bydd y gofyniad presennol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer codi siediau a thai gwydr yn parhau.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

1.11 Bydd ACLlau yn cadw'r ffioedd ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig ag unrhyw geisiadau a wneir.

---

[1] Meincnodi'r costau i ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais cynllunio. https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090903233426/http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/benchmarkingcostsapplication.pdf

Y cyhoedd

1.12 Bydd y rhai sydd â diddordeb yn y gwaith datblygu arfaethedig yn dal i allu cymryd rhan yn y broses o wneud cais cynllunio drwy gyflwyno sylwadau i'r ACLl drwy gydol y cyfnod cyhoeddusrwydd statudol. Caiff sylwadau a gyflwynir yn ystod y broses hon eu hystyried gan yr ACLl fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

**Opsiwn 2 – Llunio'r ddeddfwriaeth**

**Disgrifiad**

1.13 Byddai Opsiwn 2 yn arwain at lunio deddfwriaeth sy'n cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar dir a ddefnyddir ar gyfer mannau tyfu i gymunedau ar gyfer codi, estyn, newid a disodli adeileddau, yn benodol siediau a thai gwydr, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

**Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth**

Tyfwyr cymunedol

1.14 Mae'r cynigion yn ddadreoleiddiol ac, fel y cyfryw, disgwylir iddynt arwain at arbed costau. I bob pwrpas, byddai'r ffioedd sy'n gysylltiedig â chyflwyno cais cynllunio, a nodir ym mharagraff 1.6, yn cael eu harbed drwy roi caniatâd cynllunio yn awtomatig drwy'r GDCG.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.15 Bydd gostyngiad mewn incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio, fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwyso gan y ffaith na fydd yr ACLl yn gorfod talu costau i brosesu'r ceisiadau hynny. Mewn llawer o amgylchiadau, nid yw'r ffi gwneud cais yn talu cost penderfynu ar gais cynllunio.

1.16 Ymhellach, er nad yw data perfformiad a gesglir gan awdurdodau cynllunio lleol fel rhan o'r arolwg chwarterol ar reoli gwaith datblygu yn gwahaniaethu rhwng ceisiadau a wnaed ar randiroedd (neu fannau tyfu eraill i gymunedau), mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer y ceisiadau a gyflwynir yn isel. Felly nid ystyrir bod colli incwm o ffioedd cynllunio yn cael effaith nodedig ar incwm o ffioedd yr ACLl yn gyffredinol.

Y cyhoedd

1.17 Dim costau uniongyrchol nac anuniongyrchol.

**Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 2**

Tyfwyr cymunedol

1.18 Bydd y rhai sydd am godi adeiledd ar eu man tyfu yn gwneud arbedion ar ffioedd ceisiadau cynllunio (£85.00 ar hyn o bryd) a chostau gweinyddu cysylltiedig a delir am baratoi a chyflwyno cais cynllunio, fel yr amlinellir ym mharagraff 1.6.

Awdurdodau Lleol

1.19 Gall y gostyngiad yn nifer y mân geisiadau nad ydynt yn ddadleuol y bydd angen penderfynu arnynt yn galluogi ACLlau i ailddyrannu adnoddau staff gwerthfawr i geisiadau cynllunio eraill a all fod ag effeithiau mwy cymhleth a sylweddol.

Y cyhoedd

1.20 Dim manteision uniongyrchol nac anuniongyrchol.

## 2. Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

2.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1: Gwneud dim** – Nid yw'r ddeddfwriaeth yn newid ac mae'r hawliau datblygu a ganiateir cyfredol yn gymwys.

**Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth** – Rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau) a chael gwared ar gyfyngiadau hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach Rheoliad 2070/1070 y tu allan i dir gwarchodedig neu Safleoedd Treftadaeth y Byd. Cael gwared ar y gallu i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir drwy gyfarwyddebau Erthygl 4.

**Dadansoddiad o Gostau a Manteision**

2.2 Ymysg y sectorau y mae'r cynigion fwyaf tebygol o effeithio arnynt mae:

- Gweithredwyr seilwaith symudol sydd am osod cyfarpar telathrebu symudol newydd neu fwy o faint.
- ACLlau sy'n penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.
- Y cyhoedd a fydd yn cael budd o bosibl o fwy o gysylltedd symudol ond y gall gwaith datblygu llai cyfyngol / heb gyfyngiadau ar systemau cell fach yn eu cymunedau.

2.3 Cynhaliwyd y dadansoddiad costau a manteision canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

**Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 1: Gwneud dim**

Busnes

2.4 Bydd y gofyniad i gael caniatâd cynllunio ar gyfer systemau cell fach yn parhau, gan arwain at gostau parhaus i'r diwydiant symudol er mwyn cyflwyno eu rhwydweithiau. Mae hyn yn cynnwys ffioedd ceisiadau cynllunio a'r costau cysylltiedig ar gyfer paratoi'r wybodaeth ategol angenrheidiol, fel cynlluniau.

2.5 Gall y gofyniad i gael caniatâd cynllunio hefyd atal rhai gweithredwyr rhag gosod systemau cell fach, ar draul cymunedau yn y cyffiniau na fyddant yn cael budd o fwy o gysylltedd symudol.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.6 Bydd ACLlau yn parhau i ddilysu, prosesu a phenderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer systemau cell fach a chyfarpar telathrebu yn gyffredinol. Bydd angen rhoi cyhoedddusrwydd i bob cais a chynnal ymweliad â safle. Penderfynir ar y cais yn unol â chynllun dirprwyo perthnasol yr ACLl a all olygu bod y pwyllgor cynllunio'n penderfynu ar y cais. Bwriedir i'r ffi gynllunio dalu costau'r ACLl.

Y cyhoedd

2.7 Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol i'r cyhoedd.

**Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 1 – Gwneud dim**

*Busnesau*

2.8 Ni fydd unrhyw fanteision uniongyrchol nac anuniongyrchol i fusnesau; bydd hyn yn golygu bod y sefyllfa bresennol yn parhau.

*Awdurdodau Cynllunio Lleol*

2.9 Bydd ACLlau yn cadw'r ffi sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio ar gyfer systemau cell fach y mae angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer a bydd ganddynt fwy o reolaeth dros y gwaith datblygu.

*Y cyhoedd*

2.10 Bydd y cyhoedd yn cymryd mwy o ran drwy'r gallu i roi sylwadau'n uniongyrchol ar egwyddor caniatâd cynllunio ar gyfer y systemau cell fach hynny nad oes angen ceisiadau cynllunio ar eu cyfer ar hyn o bryd.

**Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth**

*Busnesau*

2.11 Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol nac anuniongyrchol ychwanegol i fusnesau. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ddadreoleiddiol a disgwylir iddi arbed costau i fusnesau.

*Awdurdodau Cynllunio Lleol*

2.12 Bydd gostyngiad mewn incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio, fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwyso gan y ffaith na fydd yr ACLl yn gorfod talu costau wrth ymdrin â'r ceisiadau hyn. Mewn llawer o amgylchiadau, nid yw'r ffi gwneud cais yn talu cost penderfynu ar gais cynllunio.

*Y cyhoedd*

2.13 Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol nac anuniongyrchol ychwanegol i'r cyhoedd. Bydd llai o gyfle i herio cyfarpar newydd neu fwy o faint mewn egwyddor, fodd bynnag, bydd y gallu i wneud sylwadau ar faterion lleoliad a dyluniad yn parhau drwy'r broses gymeradwyo flaenorol mewn ardaloedd gwarchodedig.

**Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 2**

Busnes

2.14 Ni fydd angen i gwmnïau gweithredu symudol wneud cais i gael caniatâd cynllunio ar gyfer ystod fwy o systemau cell fach mewn sefyllfaoedd gwahanol. Bydd cyfyngu ar drafodaethau mewn ardaloedd gwarchodedig mewn perthynas â lleoliad a dyluniad yn golygu na fydd angen trafod egwyddor y gwaith datblygu. Bydd mwy o gysylltedd symudol hefyd yn ei gwneud yn haws i fusnesau gael mynediad i rwydweithiau cyfathrebu.

2.15 Gallai symud o'r gofyniad i gael caniatâd cynllunio llawn i hawliau datblygu a ganiateir leihau'r amser a gymerir i fynd drwy'r prosesau cynllunio angenrheidiol oherwydd y rhoddir caniatâd ymhen 8 wythnos. Bydd hyn yn lleihau'r lefelau ansicrwydd yn y diwydiant.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.16 Bydd y gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio y bydd angen penderfynu arnynt yn galluogi ACLlau i ailddyrannu adnoddau staff gwerthfawr i geisiadau cynllunio eraill a all fod ag effeithiau mwy cymhleth a sylweddol. Gall ACLlau weld cynnydd yn nifer y cwynion amgylcheddol oherwydd yr effaith ar amwynder.

Y cyhoedd

2.17 Bydd y cyhoedd yn cael budd o gynnydd posibl mewn cysyllted symudol a'r manteision economaidd a chymdeithasol ehangach a ddaw yn sgil mwy o gysylltedd.

## 3. Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir

Mannau tyfu i gymunedau

3.1 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn cael gwared ar fân geisiadau nad ydynt yn ddadleuol o'r system gynllunio ac mae'n debygol y bydd yn annog pobl i ddefnyddio ac ehangu mannau tyfu i gymunedau, a chynhyrchu cynnyrch cynaliadwy yn sgil hynny.

Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

3.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn arwain at gyfundrefn fwy hwylusol ar gyfer gosod seilwaith telathrebu.

## 4. Asesu'r Gystadleuaeth

4.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso i'r diwygiadau arfaethedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion effeithio ar y lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

## 5. Adolygiad ôl-weithredu

5.1 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru ac ACLlau. Mae hyn yn galluogi trafodaeth ar unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y trefniadau a gyflwynir gan yr is-ddeddfwriaeth newydd.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu unrhyw adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a gaiff ei ystyried wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol.